

Sut mae'r CNB yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau

Beth yw addasiadau rhesymol?

- 1 Addasiadau rhesymol yw'r newidiadau i'r ffordd yr ydym yn cynnig ein gwasanaethau er mwyn sicrhau bod gan bobl anabl¹ gyfle teg a chyfartal o gael mynediad at ein gwasanaethau.

Beth yw diben y ddogfen hon?

- 2 Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein proses addasiadau rhesymol ar gyfer pawb sy'n ceisio cael mynediad at ein gwasanaethau, gan gynnwys pobl anabl. Mae'n dweud wrth bobl sy'n rhyngweithio gyda ni yr hyn y gallan nhw ei ddisgwyl, a sut y byddwn yn addasu ein prosesau er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn gynhwysol.

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

- 3 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bawb sy'n dymuno defnyddio ein gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i): bobl sy'n gwneud atgyfeiriadau at addasrwydd i ymarfer (AiY), tystion, pobl sy'n mynd drwy drafodion AiY a phobl sy'n ymgeisio cael eu cofrestru, eu hailddilysu a chael ailfyndiad neu gael eu rhoi yn ôl ar ein cofrestr.
- 4 Mae'r CNB yn ymrwymedig i sicrhau bod ein polisïau a'n canllawiau yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb. Os hoffech chi dderbyn y canllawiau hyn mewn fformat amgen, cysylltwch â Thîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant os gwelwch yn dda drwy anfon e-bost at equality@nmc-uk.org neu ffoniwch 020 7637 7181.

Beth yw anabledd?

- 5 Mae'r term 'anabledd' yn cynnwys anableddau dysgu, amhariadau corfforol a meddyliol sy'n cael effaith hirdymor a sylweddol ar allu unigolyn i ymgymryd â gweithgareddau normal o ddydd i ddydd. Effaith hirdymor yw un sydd wedi parhau, neu a ddisgwylir i barhau, am 12 mis neu fwy. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 ('y Ddeddf') yn rhoi hawliau i bobl sydd ag anabledd, neu sydd wedi cael anabledd, i'w hatal nhw rhag cael eu rhoi mewn sefyllfa o anfantais sylweddol.²

¹ Lle y bo'n bosibl, rydym wedi defnyddio'r derminoleg 'unigolion anabl' o'r model cymdeithasol sy'n cydnabod bod pobl yn cael eu gweld yn anabl gan sut mae cymdeithas yn cael ei threfnu. Mewn manau eraill yn y ddogfen hon, rydym hefyd yn defnyddio'r derminoleg 'pobl ag anableddau' o'r model meddygol. Rydym yn ymwybodol bod y ddau derm yn cael eu defnyddio gan sefydliadau sy'n cynrychioli safbwyntiau pobl anabl.

² Nid yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, ond mae ganddyn nhw ofynion cydraddoldeb tebyg iawn ar draws sawl darn o ddeddfwriaeth. Er enghraifft, mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 yn cynnwys ystyried 'barn wleidyddol' fel nodwedd warchoddedig hefyd, mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn parhau yn berthnasol i gyflogaeth yng Ngogledd Iwerddon, ac mae Gorchymyn Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Gogledd Iwerddon) 2005 yn berthnasol ym mhob lleoliad addysgol.

- 6 Rydym yn ymrwymedig i wneud addasiadau er mwyn hyrwyddo ymarfer da ac fel rhan o'n dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac fel rhan o'r ymrwymiad hwnnw, bydd achlysuron yn ogystal pan fyddwn yn ystyried addasiadau i bobl heb anabledd, ond gallan nhw barhau i wynebu rhwystrau wrth ddefnyddio ein gwasanaethau.
- 7 Tybir bod HIV, sglerosis ymledol a chanser yn anableddau o ddyddiad y derbynir y diagnosis. Tybir bod pobl gydag anffurfiadau yn ogystal yn anabl o dan y Ddeddf, fel y mae pobl sydd wedi cofrestru yn ddall neu'n rhannol ddall gyda'u hawdurdod lleol neu offthalmolegydd.
- 8 Yn ychwanegol at y cyflyrau hyn, mae diffiniad y Ddeddf o anabledd yn ddigon eang i gynnwys pobl gydag amrediad o amhariadau cyffredin, fel amhariadau clyw, gweld a llefaru yn ogystal â chyflyrau eraill fel dyslecsia, llid y cymalau, iselder, clefyd siwgr, y fogfa a phroblemau cefn. Gall anabledd fod yn weladwy neu'n anweladwy.
- 9 Anabledd dysgu yw gallu is o lawer i ddeall gwybodaeth newydd neu wybodaeth gymhleth a dysgu sgiliau newydd (deallusrwydd diffygiol), gyda llai o allu i ymdopi yn annibynnol (gweithredu cymdeithasol diffygiol), a ddechreuodd cyn cyrraedd llawn oed. Anabledd datblygiadol gydol oes yw awtistiaeth sy'n effeithio ar sut mae pobl yn gweld y byd ac yn rhyngweithio â phobl eraill. Mae anawsterau dysgu yn cynnwys dyslecsia a dyspracsia.
- 10 Mae'r CNB wedi ymrwymo i egwyddorion Gofyn, Gwranddo a Gwneud GIG Lloegr.³ Menter yw hon sydd wedi ei hanelu at sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion gydag anabledd dysgu, awtistiaeth neu'r ddau gyflwr yn teimlo bod ganddyn nhw'r awdurdod i siarad, darparu adborth ynglŷn â gwasanaethau, codi pryderon neu wneud cwyn.
- 11 Mae salwch meddwl yn gategori eang iawn sy'n cynnwys cyflyrau gwahanol iawn. Mae amrediad anferth o fathau a difrifoldeb salwch meddwl, fel pryder, iselder, anhwylder daubegynol a phyliau o banig. Yn benodol, mae'n effeithio yn bennaf ac yn arwyddocaol ar sut mae unigolyn yn teimlo, meddwl, ymddwyn neu ryngweithio â phobl eraill.
- 12 O ystyried hyn, nid ydym yn barnu ar bwy a fydd yn cwrdd â'r diffiniad cyfreithiol hwn. Os yw unigolyn yn ein hysbysu bod ganddo anabledd, anaf hirdymor neu gyflwr iechyd a'i fod yn ei chael hi'n anodd i gael mynediad at ein gwasanaethau, nid ydym yn ceisio penderfynu a yw'n cael ei gynnwys yn y diffiniad o anabledd. Yn lle hynny, rydym yn canolbwyntio ar archwilio a fyddai addasiad rhesymol yn cael gwared â'r anfantais y mae ef yn ei phrofi.
- 13 Yn yr un modd, nid ydym fel arfer yn gofyn am dystiolaeth feddygol ynglŷn ag anabledd unigolyn. Rydym yn derbyn bod yr unigolyn yn anabl ac yn canolbwyntio ar ba addasiadau a fyddai'n ei gynorthwyo i ryngweithio â ni yn effeithiol. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fyddem angen cyngor meddygol annibynnol i wneud

³ <https://www.england.nhs.uk/learning-disabilities/about/ask-listen-do/>

addasiad oherwydd byddwn yn derbyn cyngor gan unigolyn anabl ynglŷn â'i ofynion.

Sut gallwn ni ddarparu 'addasiadau rhesymol'?

- 14 Byddwn bob amser yn ystyried ceisiadau ar gyfer addasiadau i gael gwared neu leihau unrhyw anfanteision a wynebwyd cyn belled ag sy'n bosibl, ond mae angen inni wneud addasiadau sy'n rhesymol i'r CNB eu gwneud yn unig.
- 15 Byddwn yn ystyried darparu cyfarpar neu gymhorthion eraill sy'n hwyluso pobl anabl i gael mynediad at ein gwasanaethau.

Enghreifftiau o ddarparu cyfarpar neu gymhorthion eraill

- Darparu dolen sain ar gyfer unigolyn sy'n defnyddio cymorth clyw
- Darparu gwybodaeth mewn fformat amgen, fel print mawr ar gyfer unigolyn sydd ag amhariad gweledol, neu hawdd ei deall ar gyfer unigolyn gydag anabledd dysgu, neu bapur lliw ar gyfer unigolyn â dyslecsia, neu fformat electronig ar gyfer unigolyn sy'n ddall
- Darparu cadair ergonomig ar gyfer unigolyn gyda phroblem clun neu broblem gefn
- Darparu dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain (IAP) ac unigolyn sy'n cymryd nodiadau electronig yn ystod gwrandawriad ar gyfer tyst sy'n F/fyddar

- 16 Byddwn yn ystyried newid unrhyw ddarpariaethau neu arferion sy'n rhoi pobl anabl o dan anfantais sylweddol.

Enghreifftiau o newid darpariaethau neu arferion

- Caniatáu unigolyn gydag amhariad gweledol i wneud atygfeiriad dros y ffôn yn hytrach nag yn ysgrifenedig
- Darparu trawsgrifiad neu grynodedeb o sgwrs ffôn
- Newid amser gwrandawriad AiY er mwyn helpu unigolyn i reoli effeithiau pryder
- Caniatáu unigolyn i wneud cais ar bapur yn hytrach na chais ar-lein ar gyfer cofrestru, os yw eu hanabledd yn ei gwneud yn anodd iddyn nhw ddefnyddio'r broses ar-lein
- Cyhoeddi fersiynau hawdd eu deall o ddogfennau ymgynghori ac arolygon allweddol

- 17 Byddwn yn ystyried gweithredu os yw nodweddion ffisegol ein hadeiladau yn anfanteisio pobl anabl yn sylweddol pan maen nhw'n ceisio cael mynediad at ein gwasanaethau.

Enghreifftiau o gamau gweithredu sy'n ymwneud â nodweddion ffisegol ein hadeiladau

- Sicrhau bod ein lleoliadau yn hygyrch i unigolion sydd ag amrywiaeth o amhariadau
- Newid lleoliad neu ystafell gyfarfod; er enghraifft, os yw gwrandawriad neu gyfarfod yn cael ei gynllunio i'w gynnal ar y llawr cyntaf, symud y lleoliad i'r llawr gwaelod neu chwilio am leoliad mwy hygyrch. Fodd bynnag, mae'n annhebygol o fod yn rhesymol inni osod lifft

- 18 O dan y Ddeddf, mae gennym 'ddyletswydd ragweld', sy'n golygu y bydd yn rhaid inni feddwl ymlaen llaw (ac ar sail barhaus) ynglŷn â beth all pobl anabl gydag amrediad o amhariadau fod eu hangen wrth gael mynediad at ein gwasanaethau.
- 19 Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol hefyd i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan.
- 20 Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r addasiad a ragwelwyd, os yw'r unigolyn anabl yn parhau o dan anfantais sylweddol wrth ddefnyddio'r gwasanaeth oherwydd ei anabled, byddwn yn gwneud addasiad arall yn benodol ar gyfer yr unigolyn hwnnw.

Enghreifftiau o addasiad a ragwelwyd ac addasiad pellach

Rydym wedi lledu rhodfeydd ac wedi gostwng cownteri mewn debynfeydd wrth ragweld anghenion defnyddwyr cadeiriau olwyn. Fodd bynnag, efallai na all unigolyn sydd mewn cadair olwyn gyrraedd y seiniwr yn y fynedfa flaen oherwydd bod rhai o'i symudiadau yn gyfyngedig ac ni all godi ei freichiau. Addasiad rhesymol arall ar gyfer y cwsmer hwn fyddai i aelod o staff gwrdd ag ef yn y drws ffrynt.

- 21 Rydym yn disgwyl i'n staff fod yn gallu adnabod yr angen am addasiadau rhesymol a'u hwyluso ar gyfer pobl anabl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rydym yn adlewyrchu hyn yn ein polisiau a'n canllawiau.
- 22 Gan nad oes unrhyw ddiffiniad penodol o'r hyn sy'n ffurfio 'addasiad rhesymol', byddwn yn cymryd dull achos wrth achos er mwyn penderfynu beth sy'n rhesymol wrth inni ystyried ceisiadau. Wrth benderfynu a yw addasiad arbennig yn rhesymol, yn nodweddiadol byddwn yn ystyried y ffactorau canlynol:⁴
- 1.1 Effeithiolrwydd – pa mor dda mae'r addasiad dan sylw yn cael gwared â'r anfantais, neu o leiaf yn ei lleihau? Rydym yn annhebygol o wneud addasiadau nad ydyn nhw'n cael gwared â'r anfantais.
- 1.2 Ymarferoldeb – pa mor ymarferol yw'r addasiad, er enghraifft, pa mor hir a fydd yn ei gymryd i'w weithredu?

⁴ Yn seiliedig ar ganllawiau'r Fforwm Anabled Busnes ynglŷn â phenderfynu beth sy'n 'rhesymol'

- 1.3 Cost – faint fydd yn ei gostio, o ystyried ein hadnoddau ariannol ac a oes cymorth arall ar gael?
- 1.4 Amhariad – pa mor drafferthus a fydd i'r busnes, i bobl eraill, ac i'n swyddogaeth reoleiddiol fyddai gwneud yr addasiad hwn?
- 1.5 Risg – a fyddai gwneud yr addasiad hwn yn achosi unrhyw risg i bobl eraill?
- 23 Mae rhai pethau nad yw'r Ddeddf yn gofyn inni wneud addasiadau iddyn nhw. Mae'r Ddeddf yn egluro nad yw'n wahaniaethol i ddefnyddio safonau cymhwysedd (sy'n cynnwys ein Côd, ein hailddilysrwydd a'n safonau addysg) i unigolyn anabl. Fel rheolydd proffesiynol sy'n gyfrifol am warchod y cyhoedd, ni fyddai yn iawn inni addasu'r safonau hyn. Fodd bynnag, gallwn ni wneud addasiadau rhesymol er mwyn cynorthwyo nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio i gwrdd â'n safonau.

Enghraifft o safon cymhwysedd

Mae unigolyn ar ein cofrestr ar fin aiddilysu, ond nid yw wedi cwrdd â'r gofynion DPP na'r gofynion adborth. Ni allwn ni newid y gofynion i gwblhau 35 awr o DPP na chasglu pum darn o adborth oherwydd eu bod yn safonau cymhwysedd, ond gallwn ni wneud addasiad i'r broses o gwrdd â'r safon, fel cynnig estyniad byr i ddyddiad cau'r cais lle mae rheswm da dros wneud hynny.

- 24 Yn ogystal, rydym yn ystyried yr effaith ar bobl anabl, ac unrhyw addasiadau rhesymol cysylltiedig, pan yr ydym yn adolygu ein prosesau neu'n eu newid, er enghraifft, drwy nodi camau gweithredu mewn asesiadau effaith cydraddoldeb.

Ei wneud yn hawdd i bobl ofyn am addasiadau

- 25 Er mwyn ein helpu i wneud unrhyw addasiadau mewn pryd i fod yn gallu helpu, rydym yn annog pobl anabl i ofyn am unrhyw gefnogaeth mor gynnar ag sy'n bosibl drwy ddefnyddio'r dewisiadau cyswllt ar gyfer y broses y maen nhw'n ymgysylltu â hi, ac rydym yn cynnwys nodion atgoffa yn ein deunyddiau ar gyfer cwsmeriaid.
- 26 Yn ogystal, rydym yn gofyn i bobl ynglŷn ag addasiadau pan yr ydym yn rhyngweithio â nhw. Efallai gall hyn gynnwys cyfweleion, nyrsys, bydwagedd, cymdeithion nyrsio a thystion sydd ynghlwm â'r gwahanol gamau o'n prosesau.

Rhannu gwybodaeth ynglŷn ag anabledd

- 27 Rydym eisiau sicrhau bod unigolyn anabl yn derbyn yr addasiadau y mae ef eu hangen, pa ran bynnag o'r CNB y mae'n rhyngweithio ag ef. Pam mae staff CNB angen rhannu gwybodaeth berthnasol gyda chydweithwyr, ni fyddan nhw'n datgelu gwybodaeth sensitif ynglŷn ag iechyd nac anabledd, ac yn lle hynny, byddan nhw'n canolbwyntio ar yr addasiad sydd ei angen yn hytrach na diagnosis meddygol yr unigolyn. Er enghraifft, byddwn yn cofnodi bod tyst angen seibiant rheolaidd yn ystod gwrandawriad yn hytrach na chofnodi'r anabledd ei hun, os nad yw'r anabledd hwnnw yn uniongyrchol berthnasol.

- 28 Pan mae staff angen cyfathrebu â'i gilydd ynglŷn ag addasiad rhesymol arbennig yr ydym angen ei wneud, byddwn yn rhannu gwybodaeth ynglŷn â chyflwr corfforol neu iechyd meddwl mewn perthynas â gwneud addasiad rhesymol yn unig. Pan rydym yn casglu gwybodaeth ynglŷn ag addasiadau rhesymol, byddwn yn eglur ynglŷn â sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth honno.

Pryderon neu gwynion

- 29 Os hoffech chi drafod pryder neu gŵyn gyda ni ynglŷn â'r polisi hwn, cysylltwch â'n tîm Ymholiadau a Chwynion Cwsmeriaid drwy anfon e-bost at complaints@nmc-uk.org os gwelwch yn dda.

Adolygu'r Polisi hwn

- 30 Byddwn yn adolygu'r polisi hwn yn ffurfiol ym mis Awst 2021. Fodd bynnag, byddwn yn cadw'r polisi hwn o dan adolygiad tan hynny, ac rydym yn croesawu adborth ynglŷn â'n dull.